Hyfforddiant Cymraeg yn y Gweithle

CYMRAEG I OEDOLION
WELSH FOR ADULTS
Canolfan Gogledd Cymru
North Wales Centre

Cymorth Ymarferol i Ddatblygu Sgiliau Iaith eich Staff

Mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus ddatblygu a chynnal rhaglen hyfforddi ar gyfer ei staff. Mae'n gwneud synnwyr felly i gynllunio'r hyfforddiant yn y ffordd sydd fwyaf buddiol i'r cyflogwr, y staff a defnyddwyr y gwasanaeth. Gall Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru roi arweiniad proffesiynol ar y ffordd fwyaf effeithiol o wneud hyn, gan sicrhau:

- Gwerth am arian
- Ateb gofynion eich Cynllun Iaith / Bwrdd yr Iaith yn llawn
- Hyfforddiant pwrpasol i ateb eich union ofynion chi
- Gwell cymhelliad personol gan eich staff
- Ymroddiad clir i ddatblygu sgiliau iaith eich staff
- Arwain at well gwasanaeth dwyieithog i'ch cwsmeriaid

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY 1884

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

"Mae gan Heddlu Gogledd Cymru'r weledigaeth o greu sefydliad dwyieithog. Mae'n bwysig darparu hyfforddiant iaith priodol i'n gweithlu er mwyn sicrhau eu bod yn medru darparu dewis iaith i'r cyhoedd. Rydym o ddifrif am hyn ac yn sylweddoli bod yn rhaid cynllunio hyfforddiant iaith Gymraeg yn ofalus trwy fuddsoddiadnoddauacamser.Dyma'runigfforddisicrhaucanlyniadaugoiawn."
– Richard Brunstrom, Prif Gwnstabl, Heddlu Gogledd Cymru.

Pam dod atom ni?

- er mwyn buddsoddi eich cyllideb hyfforddi yn effeithiol
- er mwyn sichrau bod eich staff yn defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol ar ôl derbyn hyfforddiant
- i sicrhau bod yr hyfforddiant iaith yn ateb eich gofynion corfforaethol
- i sicrhau eich bod yn derbyn hyfforddiant priodol – tydy pob cwrs ddim yn addas i anghenion pob cyflogwr
- gallwn lunio cynllun dysgu wedi ei deilwra i bob un o'ch staff
- gallwn gynllunio cefnogaeth y tu allan i'r dosbarth i'ch staff
- gallwn fonitro cynnydd eich staff a chynhyrchu adroddiadau i chi
- gallwn wella safon eich gofal cwsmer
- o gynllunio hyfforddiant yn y ffordd iawn, gall fod yn hynod gost effeithiol

Sut fath o gymorth ymarferol gewch chi?

- asesiad o anghenion hyfforddi'r sefydliad a chyngor ar flaenoriaethu
- asesiad o lefelau sgiliau'r staff a chyngor ar hyfforddiant priodol
- llunio Cynllun Dysgu Personol i'r staff (yn cynnwys nodau a thargedau unigol)
- cynllunio a darparu hyfforddiant addas a phriodol o'r safon uchaf
- cyngor ar gefnogaeth y tu allan i'r cwrs ffurfiol
- gwasanaeth monitro a gwerthuso cynnydd
- adroddiadau cynnydd i'r cyflogwr
- cyngor ar ddefnyddio'r sgiliau newydd

I ddysgu mwy am waith Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru neu i dderbyn ymgynghoriad a chyngor yn rhad ac am ddim, cysylltwch â'r Cyfarwyddwr, Ifor Gruffydd:

01248 382929

E-bost: i.gruffydd@bangor.ac.uk

www.learncymraeg.org

CYMRAEG I OEDOLION
WELSH FOR ADULTS
Canolfan Gogledd Cymru
North Wales Centre